


CEFNOGI GWAITH Y MENTRAU IAITH ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21



MENTRAU IAITH CYMRU

Pwrpas Mentrau Iaith Cymru yw cefnogi gwaith y Mentrau Iaith i greu Cyfleoedd i gymunedau Cymraeg ffynnu ym mhob cwr o Gymru.



Sefydlwyd Mentrau Iaith Cymru (MIC) yn 1999, gan fod y Mentrau Iaith lleol wedi adnabod angen i gyfarfod yn rheolaidd, rhannu profiadau a gwybodaeth a chael llais i'w cynrychioli yn genedlaethol.

Mae 22 Menter Iaith leol, gyda phob un yn aelodau o MIC. Y Mentrau sy'n arwain ac yn penderfynu blaenoriaethau MIC. Mae pob Menter gyda phleidlais mewn cyfarfodydd cenedlaethol.

Bellach mae 5 aelod staff yn gweithio i MIC gyda'r brif swyddfa yn Llanrwst.

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Roedd 2020-21 yn flwyddyn heriol i bawb, gyda'r flwyddyn yn cychwyn efo'r wlad newydd ddechrau'r "clo mawr". Fwy nag erioed roedd angen cefnogaeth a chynrychiolaeth Mentrau Iaith Cymru arnom fel Mentrau Iaith lleol, ac rwy'n falch iawn o allu dweud gyda hyder bod MIC wedi bod yn hynod effeithiol yn y cyfnod anodd hwnnw.

Teimlaf y gellir mynd mor bell a dweud bod MIC wedi bod yn amhrisiadwy i ni gyd fel rhwydwaith o Fentrau lleol dros y cyfnod, ac wedi pwysleisio mwy nag erioed pwysigrwydd cael mudiad cenedlaethol yn ein cefnogi a chynrychioli.

Roedd llawer iawn o'r gwaith yn waith cynrychioli'r rhwydwaith gyda'r llywodraeth, a daethpwyd i ben ar gytuno ffyrdd newydd o weithio i'r rhwydwaith dros y cyfnod.

Penderfynwyd yn ystod y flwyddyn y byddai'r Pwyllgor Gweithredol, a finnau fel cadeirydd, yn aros yn ein rôl am flwyddyn ychwanegol i gael sefydlogrwydd yn ystod cyfnod y pandemic.

Bu'n rhaid i'r staff addasu'n gyflym wrth newid dulliau i gefnogi'r rhwydwaith a medrwyd gwneud hyn yn effeithiol gyda datblygiadau fel y cyfarfodydd cydlyn, tudalen Facebook Gweithgareddau Cymraeg Gartref a'r Digwyddiad Digynsail. Parhaodd Helo Blod Lleol fel cynllun cenedlaethol o dan arweiniad MIC dros y cyfnod a llwyddo i daro targedau er gwaethaf y sefyllfa ac eto gorfod newid dulliau o weithio.

Hwn yw'r adroddiad blynyddol olaf i mi gyflwyno i chi fel cadeirydd, hoffwn ddymuno pob hwyl i Dewi yn y gadair a diolch i chi am eich cefnogaeth dros y tair blynedd ddiwethaf.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i'r staff am eu brwdfrydedd a gwaith caled dros y flwyddyn.



L. C. Jones

Y MENTRAU IAITH

Rhwydwaith o grwpiau cymunedol yw'r Mentrau Iaith sy'n gweithio tuag at gynyddu a chryfhau'r defnydd o Gymraeg yn ein cymunedau. Mae 22 Menter Iaith wahanol sy'n gweithio gyda dros 190,000 o bobl ledled Cymru yn ein hardaloedd lleol. Mae pob un yn wahanol, yn gwasanaethu ar gyfer anghenion penodol eu hardaloedd.

Yn cynnal miloedd o weithgareddau'r flwyddyn - o wyliau neu glybiau gofal plant i sesiynau ymwybyddiaeth iaith - mae'r Mentrau Iaith yn cefnogi pobl o bob oed ac ym mhob cam o fywyd. Gan gyfeirio at wasanaethau Cymraeg defnyddiol - mae'ch Menter Iaith yn siop-un-stop ar gyfer yr iaith, yn ein hannog i fyw, dysgu a mwynhau yn Gymraeg.

Mae'r Mentrau Iaith i bawb.

ADEILADWAITH MENTRAU IAITH CYMRU

Bwrdd Rheoli (Cyfarfod Cenedlaethol)

Cynrychiolaeth o bob Menter Iaith sy'n aelodau o MIC (pob Menter yn cael anfon dau gynrychiolydd ac enwebu un ohonynt i fod yn un o Gyfarwyddwyr MIC, y Prif Swyddog fel arfer). Gwahoddir pob Prif Swyddog i'r cyfarfodydd a chroesewir cynrychiolaeth gan aelod o fwrdd rheoli pob Menter hefyd. Mae'r Pwyllgor Rheoli'n ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd a Thrysorydd sy'n gweithredu am ddwy flynedd i arwain y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol.

Pwyllgor Gweithredol

Gwneud y gwaith o sicrhau bod nodau ac amcanion MIC yn cael eu gwireddu, ac yn gyfrifol am reoli staff, yw rôl y Pwyllgor Gweithredol. Mae'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Trysorydd a 3 aelod yn cael eu hethol i'r Pwyllgor Gweithredol gan y rhanbarthau (2 o bob rhanbarth) bob dwy flynedd.

Pwyllgorau Rhanbarthol

Cyfarfodydd rhanbarthol (Gogledd, De Orllewin a'r De Ddwyrain) yn creu cyfle i drafod pwyntiau rhanbarthol a chenedlaethol fydd yn cael eu bwydo nôl i'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r pwyllgorau rhanbarthol yn gwahodd y Prif Swyddog o bob Menter Iaith o fewn y rhanbarth gan ethol Cadeirydd.

Staff MIC

Gweithredu ar benderfyniadau'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol, cynnig cefnogaeth i rwydwaith y Mentrau Iaith.



Iwan Hywel
Arweinydd Tîm



Heledd ap Gwynfor
Cydlynnydd
Partneriaethau



Marged Rhys
Cydlynnydd Marchnata
a Chyfathrebu



Daniela Schlick
Cydlynnydd Prosiect
Helo Blod Lleol



Cathryn Griffith
Swyddog Datblygu



Glesni Williams
Swyddog Gweinyddol

CEFNOGI YN YSTOD COVID-19

Cefnogi'r Rhwydwaith

Nid oes modd trafod y flwyddyn hon heb gydnabod effaith pandemig y coronafeirws ar y Mentrau Iaith. Parhaodd MIC i gynnis cefnogaeth i'r Mentrau Iaith lleol trwy gydol y flwyddyn.

Roedd MIC yn gyswllt pwysig tu hwnt rhwng y rhwydwaith a Llywodraeth Cymru. Efen arall bwysig o waith MIC oedd cydlynw'r gefnogaeth gan gwmni adnoddau dynol Darwin Gray, fuodd yn hanfodol bwysig yn y cyfnod ble defnyddiodd nifer o'r Mentrau y cynllun gwarchod swyddi.

Roedd cadw ysbryd staff rhwydwaith y Mentrau Iaith yn bwysig tu hwnt wrth i staff wynebu cyfnodau hir o weithio'n ynysig o'u cartrefi. Drwy drefnu cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol cyson i Brif Swyddogion, Swyddogion Maes a Swyddogion Helo Blod Lleol, roedd cyfle i staff ddod ynghyd i gyd-drafod a lleihau baich meddyliol.

Cafwyd sesiynau Lles a Iechyd meddwl gan gwmni Canna Consulting a chyfle i'r Mentrau gystadlu yn erbyn ei gilydd mewn cwis yn y Digwyddiad Digynsail

GIG RAS123 Ras yr IAITH
yn FYW ar dudalen Facebook Ras yr Iaith

KIZZY CRAWFORD
WELSH WHISPERER
GWILYM BOWEN RHYS

09-07-20
18:00-19:30

#RAS123

02920 43 17 05

Cynllun
Cyfaill
Cymru

WcVA CoGC EISTEDDFOD MENTRAU IAITH

Cefnogi Cymunedau

Yn ogystal a gweithwyr y Mentrau Iaith, roedd MIC yn teimlo'n frwdfrydig dros gynnig rhywbeth yn ôl i'n cymunedau. Er gorfod gohirio Ras yr Iaith 2020 ar ei ffurf arferol, aeth MIC ati i drefnu ras a gig rhithiol 'Ras123' a gododd dros £3,000 i elusennau'r byrddau iechyd.

Dan arweiniad Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, cydlynodd MIC rôl y Mentrau Iaith fel rhan o Gynllun Cyfaill Cymru i daclo unigedd unigolion hyn ein cymdeithas drwy gynnig sgysiau ffôn.

DATBLYGU PROFFESIYNOL

Rhagfarn Ddiarwybod- Cydweithio gyda'r partneriaid cenedlaethol yn yr is-grŵp hyfforddiant i drefnu sesiynau Rhagfarn Ddiarwybod gan gwmni ElevateBC, mynychwyd y sesiynau gan ddegau o swyddogion y Mentrau ac mae'r hyfforddiant hwn bellach ar gael fel pecyn digidol. Braff oedd cael cydweithio gydag endidau eraill i dreialu trefnu hyfforddiant ar y cyd a bwriedir gwneud llawer mwy yn y dyfodol.

Busnes Cymru- trefnodd MIC gyfres o sesiynau digidol gan arbenigwyr Busnes Cymru ar destunau amrywiol oedd o ddiddordeb i'r Mentrau gan gynnwys "Rheolaeth Ariannol" a "Marchnata Digidol".

Diogelu- Cafwyd sesiynau hyfforddiant Diogelu i'r Person Penodedig gan gwmni Y Bont i gyd-fynd gyda'r polisi Diogelu newydd ganddynt yn arbennig i'r Mentrau

Marchnata Mawrth - trefnwyd cyfres o gyflwyniadau proffesiynol yn ymwneud a gwaith pob dydd y Mentrau gan gynnwys creu posteri a fideo; datganiadau gwasg; tips ar ddefnyddio Instagram a sut i drin Wordpress ac hefyd sut i fynd ati i gynllunio a dadansoddi y cyfryngau cymdeithasol. Recordiwyd y sesiynau i gyd a'u rhannu gyda holl staff y Mentrau.

Cymunedau Digidol Cymru- Bu i MIC gydweithio gyda CDC ar gynnig cyfres o weminarau ar gyfer pobl nad sydd mor gyfforddus yn defnyddio technoleg. Roedd rhain yn amrywio o ddiogelwch ar lein i sut i greu storïau digidol.

Mae MIC wedi bod yn cynhyrchu nifer o fideos sydd mewn rhestr chwarae ar ein tudalen You Tube o dan y teitl Sut i... mae'r rhain yn cynnwys Sut i... fesur effaith ar y cyfryngau cymdeithasol; croesbostio; creu gifs a sticeri a llawer iawn mwy!



HYRWYDDO

Hyrwyddo Gwaith y Mentrau Iaith

Gweithgareddau Cymraeg Gartref - dyma dudalen sydd yn cael ei chynnal gan MIC ar Facebook er mwyn rhannu a hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg y gellid eu gwneud tra adref. Mae'r dudalen hon wedi bod yn brysur dros ben gyda dros 3,000 o aelodau ac wedi ymateb i'r heriau o fod yn 'goeth' adref.

Ysgogodd syniad mewn cyfarfod Cydlynu ar greu grwp Facebook Tafarn y Clo - tafarn rhithiol gyda Mentrau amrywiol yn ei rhedeg yn wythnosol, fe ymunodd dros 2,000 a'r grwp hwn gydlynwyd gan MIC.

Sianel AM - Mae gan y Mentrau Iaith sianel ar lwyfan AM sy'n cynnwys degau o weithgareddau Cymraeg i'w gwneud gartref. Mae'r sianel yn cynnwys gweithgareddau i deuluoedd, i blant, i'r ifanc, i'r gymuned a mwy i annog pawb o bob oed ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd hwyliog.

Ymgyrchoedd Cenedlaethol

Traddodiadau Cymreig - drwy greu is grwpiau Cydlynu bu i'r grwpiau hyn ganolbwyntio ar waharnol becynnau yn ymwneud a thraddodiadau cynhenid Cymreig fel y Fari Lwyd, traddodiad y Pwnco a'r Plygain.

Cydweithio Cenedlaethol - Aeth Cwis Dim Clem yn genedlaethol am y tro cyntaf gyda ymron i bob ardal Menter gymryd rhan. Bu cydweithio gyda'r Theatr Genedlaethol ar greu Clwb Theatr Cymru - dosbarthiadau meistr ar gyfer plant blwyddyn 6 ar draws Cymru gyda degau yn cofrestru a chael hwyl yn perfformio a dawnsio.



Mwynhau'r Gymraeg

Mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol aeth MIC ati i ymchwilio a llunio adroddiad ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr lefelau uwch i ddefnyddio'r Gymraeg, o'r gwaith hwn mae brand newydd Mwynhau'r Gymraeg wedi deillio. Bellach mae rhwydwaith y Mentrau i gyd yn ei ddefnyddio i hyrwyddo digwyddiadau i Siaradwyr Newydd. Penderfynwyd yn dilyn yr ymchwiliad ac adroddiad hefyd i alw'r gynulliedifa yma yn Siaradwyr Newydd, yn hytrach na dysgwyr. Bydd y brand yn cael ei lansio'n swyddogol gyda digwyddiadau yn ystod 21-22.




Mwynhau'r Gymraeg

PROSIECTAU

Helo Blod Lleol

Newid enw brand- ar ddiwedd 2019-20 ymunodd y prosiect Cymraeg Byd Busnes yn swyddogol gyda brand Helo Blod, gan gymryd y teitl Helo Blod Lleol.

Ansicrwydd cyfnod covid- anodd oedd i swyddogion y prosiect gefnogi busnesau i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn ystod cyfnod y pandemic, ond llwyddwyd i addasu'r gwasanaeth a chynnig y gefnogaeth yn ddigidol, gyda'r prosiect yn cyrraedd y targedau a osodwyd, diolch i'r swyddogion am eu gwaith diflino yn ystod cyfnod anodd.



Kickstart

Ym Mawrth 2021 roedd MIC yn llwyddiannus yn eu cais i fod yn "Gateway Employer" ar gyfer cynllun Kickstart. Mae'r cynllun yn cynnig cyflogaeth am gyfnod o 6 mis, 25 awr yr wythnos, i bobl ifanc rhwng 18 a 25 sy'n derbyn credyd cynhwysol. Bydd 29 lleoliad gwaith o fewn rhwydwaith y Mentrau yn cael eu hysbysebu ar ddechrau 21-22.

KICKSTART
SCHEME

Papurau Bro

Mae MIC wedi parhau i weinyddu grantiau y Papurau Bro ar ran Llywodraeth Cymru a bu i 3 papur bro newydd ymuno gyda'r cynllun eleni. Bu i MIC gynnal cyfarfodydd rhithiol a chynrychiolwyr y Papurau Bro a threfnu hyfforddiant ar eu cyfer a rhannu newyddion am hyfforddiant gan eraill all fod o ddiddordeb.

Bu i MIC drefnu creu logo newydd ar gyfer y rhwydwaith hwn gan selio diwyg cyfryngau cymdeithasol y rhywdwaith a'r wefan newydd ar y logo hwn. Lanswyd gwefan newydd www.papuraubro.cymru sydd yn cynnwys gwybodaeth am ein holl Bapurau Bro.

PAPURAU
BRO



DIGWYDDIADAU

Digwyddiad Di-gynsail

Y geiriau ddefnyddiwyd fwyaf eleni oedd 'Zoom' a'r ffaith ein bod yn byw mewn cyfnod 'di-gynsail'. Oherwydd y cyfyngiadau oedd mewn lle yn ystod y flwyddyn, nid oedd modd trefnu cwrdd mewn man canolog ar gyfer holl staff y Mentrau eleni. Dyma drefnu cyfres o sesiynau dros Zoom. Trefnwyd dim mwy na dwy sesiwn i ddigwydd yn feunyddiol dros bythefnos gan gynnwys cyflwyniadau yn ymwneud a siaradwyr Cymraeg newydd, bod yn gynhwysol o fewn ein sefydliadau, cyflwyno sesiynau stori gwych ar lein a llawer llawer mwy - mae recordiadau ohonynt ar gael i'r staff.

Trefnwyd gyfarfodydd Cydlynu wythnosol er mwyn dod a staff y Mentrau ynghyd i ddiwallu syniadau a rhannu arferion da a cheisio osgoi ail greu gwaith. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn dda at foral staff, gan esgor ar syniadau am gydweithio cenedlaethol. Bu i MIC drefnu cyfarfodydd ar gyfer y Prif Swyddogion yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn rhithiol yn ogystal.



ADBORTH



Gwerth chweil - diolch

Amserol a defnyddiol

Gwych cael cyflwyniad gan rywun sy'n omlwg y deall yr heriau i ni fel Mentrau

Amryw swyddogion wedi iddynt fynychu hyfforddiant

Wedi trefnu yn effeithiol a braf gallu cario'r gystadleuaeth yn genedlethol eleni

Swyddog Cydlynu re: trefnu Cwis Dim Clem

Da chi'n neud gwaith GWYCH yn y gynhadledd - rili yn mwynhau - sesiynau ffab!

Prif Swyddog am y Digwyddiad Di-Gynsail

Mentrau

laith

Cymru

Manylion Cyswllt:

Mentrau Iaith Cymru
Y Sgwâr
Llanrwst
Conwy
LL26 0LD

Ffôn: 01492 643401

Ymholiadau cyffredinol: post@mentrauiath.cymru

Gwefan: www.mentrauiath.cymru

